

Heddiw, roedd disgyblion blwyddyn tri, **Ysgol y Fedwen Fawr**, yn mynd ar drip ysgol.

Roedd y disgyblion wedi bod yn edrych ymlaen am wythnosau lawer at fynd ar y trip.

Nid trip arferol ydoedd, ond trip i **barc antur** gorau'r byd.

Roedd y disgyblion yn edrych ymlaen at...

ddringo'r rhaffau rhwng y coed tal.

At wibio i lawr y llithren gyflym.

At redeg rhwng y creigiau enfawr.

Ac at neidio'n uchel ar y trampolinau crwn.



Rhydian oedd partner **Trystan** ar y trip ysgol i'r **parc antur** ac roedd y ddau ohonynt wedi gorffen cynnwys eu pecynnau bwyd yn barod.

Roedd **Rhydian** wedi llowcio'i iogyrt i gyd o fewn pum eiliad ac roedd **Trystan** wedi chwalu trwy ei focs ffrwythau cyn i'r bws adael gathau'r ysgol.

Unwaith i'r bws gyrraedd y **parc antur**, rhedodd **Rhydian** a **Trystan** allan o'r bws gyda'u boliau'n llawn ac yn barod i fynd ar antur.

Wrth i'r disgyblion ddilyn **Mr Jones** draw at y **parc** gyda'r siglen a llithren gyflym, sylwodd **Trystan** ar rywbeth yn symud yn y goedwig.

Felly, yn lle dilyn **Rhydian** a gweddill ei ffrindiau i'r **parc**, fe aeth **Trystan** draw at y goedwig i weld beth oedd yno.

Erbyn iddo gyrraedd ochr y goedwig sylwodd fod beth bynnag a oedd yn y goedwig yn crio.

Edrychodd **Trystan** yn ôl i weld ble roedd gweddill y dosbarth.

Roedd pawb yn chwarae'n braf ar y siglen a'r llithren.



Felly, heb feddwl dwywaith camodd **Trystan** i mewn i'r goedwig i weld beth oedd o'i le.

O fewn chwe cham stopiodd **Trystan** yn stond.

O'i flaen, yn eistedd ar lawr y goedwig yn crio oedd... **cawr!**



O flaen **Trystan** roedd cawr mawr wedi ei amgylchynu gan byllau dŵr mor fawr â'r pwll nofio roedd **Trystan** yn cael gwersi nofio ynddo bob bore Sadwrn!

"Beth sy'n bod?" holodd **Trystan**.

Cododd y cawr ei ben gan ddychryn ar weld **Trystan**.

Ond nid oedd **Trystan** yn teimlo'n ofnus o gwbl wrth weld cawr o'i flaen. Roedd y cawr yn edrych yn rhy gyfeillgar i **Trystan** fod yn ofn ohono, er bod y cawr bron mor dal â'r coed o'i gwmpas.

"Wyt ti ar goll?" gofynnodd **Trystan**.

Nodiodd y cawr ei ben gan wneud i'w wallt cyrliog chwifio yn y gwynt.

Disgynnodd deigrin arall o lygaid mawr y cawr gan greu **SPLASH!**

Eglurodd **Cai** y cawr ei fod e wedi bod yn chwarae gyda'i chwaer yn y goedwig ond crwydrodd **Cai** i ffwrdd pan welodd barcud **oren** a **brown** yn sownd mewn coeden dderwen.

"Hoffet ti ddod i chwarae gyda fi a fy ffrindiau nes i dy chwaer ddod yn ôl?" oedd cynnig **Trystan**.

Nodiodd **Cai** ei ben eto gan wenu o glust i glust.

Gyda phob cam roedd **Cai** yn ei gymryd roedd y llawr yn dirgrynu. Roedd **Trystan** yn cael trafferth cerdded wrth ymyl **Cai** oherwydd yr holl ddirgrynu.

Wrth i **Trystan** a **Cai** nesáu at y **parc**, lle roedd gweddill disgyblion **Ysgol y Fedwen Fawr** yn chwarae'n braf ar y siglen a llithren, trodd pawb i edrych yn syn ar **Cai**.

Roedd yna gawr yn anelu am y disgyblion yn y **parc**.

Dechreuodd pawb sgrechian mewn ofn.

"Peidiwch â bod ofn," gweiddodd **Trystan** uwchben yr holl sgrechian.

"Dyma Cai. Fy ffrind newydd," eglurodd **Trystan** wrth bawb.



Stopiodd y
sgrechian yn
syth.

Rhuthrodd pawb
at **Cai** gan roi
un cwtsh mawr
iddo o gwmpas
ei draed
anferth.

Gwenodd **Cai**
ar **Trystan**.

Roedd **Cai** a **Trystan** yn tyfu i fod yn ffrindiau agos dros ben.

Dechreuodd y plant ddringo coesau a breichiau **Cai** er mwyn cael gweld y golygfeydd arbennig o ysgwyddau **Cai**.


O ysgwyddau **Cai** roedd y disgyblion yn gallu gweld y **parc antur** i gyd, gan gynnwys plant eraill yn neidio ar y trampolinau crwn.

Yn sydyn, o ar ben ysgwydd **Cai**, gwelodd **Trystan** rywbeth yn symud yn y pellter.

Pwyntiodd **Trystan** at y symudiad a sylwodd **Cai** ei fod yn adnabod y gwallt cyrliog, **fflamgoch** fel gwallt ei chwaer.

Roedd ei chwaer wedi ei ffeindio!

Roedd **Cara**, chwaer **Cai**, hyd yn oed yn dalach na **Cai**!



Cofleidiodd **Cara** â **Cai** yn hapus braf.

Dringodd pawb yn ôl i lawr o ysgwyddau **Cai**, ar wahân i un bachgen bach, sef **Trystan**.

Trodd **Trystan** at **Cai** gan edrych yn drist.
Doedd e ddim eisiau dweud hwyl fawr wrth ei ffrind gorau newydd.

“Fe wela’i di tro nesaf y dewch chi i’r parc antur,” addawodd **Cai**
wrth **Trystan**.

Nodiodd **Trystan** ei ben gan ffarwelio â **Cai** trwy roi cwtsh mawr i’w glust anferthol.

Lithrodd **Trystan** o ysgwyddau **Cai** yn ôl lawr i’r ddaear gan ymuno â gweddill y disgyblion ar eu ffordd yn ôl i’r bus.



Roedd **Trystan** methu aros i ddweud am ei antur wrth ei rieni y prynhawn hwnnw. Gwenodd **Trystan** o glust i glust yr holl ffordd yn ôl i’r ysgol am ei fod e wedi cwrdd, a gwneud ffrindiau, gyda chawr!

Gan Rhiannon Lloyd Williams a Sioned Medi Evans